**Arolygiad o dan Adran 28**
**Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

**Ysgol Brynaerau**
**Pontllyfni**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL54 5BU**

**Rhif yr Ysgol: 6612017**

**Dyddiadau yr Arolygiad: 08/05/07**

**gan**

**Len Jones**
**16360**

**Dyddiad Cyhoeddi: 11/07/07**

**O dan rif contract Estyn: 1118506**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodwedddion da a dim diffygion pwysig**

94. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae ansawdd y sesiynnau addoli ar-y-cyd yn dda ac yn cwrdd â'r gofynion statudol. Mae'r cyfleoedd i'r disgyblion gyfrannu ac i fyfyrio yn ystod y cyfnodau hyn yn hyrwyddo'u datblygiad ysbrydol a moesol yn effeithiol.

95. Gwna'r ysgol ddarpariaeth dda ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, trwy gyfuniad o weithgareddau ar draws y cwricwlwm, darpariaeth benodol (megis amser cylch), a gweithgareddau ysgol gyfan (megis cefnogi elusennau dyngarol). Mae'r Cyngor Ysgol yn weithredol ac yn fodd effeithiol i ddisgyblion drafod materion ynglŷn â'u hysgol. Yn ddiweddar, trafodwyd materion megis mentergarwch, a rhan y disgyblion hŷn wrth ofalu am ddisgyblion ieuengach ar fuarth yr ysgol.